



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

Teitl: Datganiad Deddfwriaethol ar gyfer Mesur Arfaethedig Tai (Cymru)
Dyddiad: 22 Tachwedd 2010
Gan: Jocelyn Davies, y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio

Heddiw, cafodd Mesur Arfaethedig Tai (Cymru) ei osod.

Mae'r Mesur Tai arfaethedig yn gwneud newidiadau sy'n ei gwneud yn bosibl i ddarparu tai fforddiadwy mewn modd mwy effeithiol yng Nghymru.

Mae'r Mesur arfaethedig yn gwneud darpariaeth i:

- i) mynd i'r afael â'r ymrwymiad a wnaed yn nogfen clymblaid *Cymru'n Un* i alluogi Gweinidogion Cymru, ar sail cais oddi wrth Awdurdod Tai Lleol, i atal dros dro yr Hawl i Brynu, a hawliau perthnasol mewn ardaloedd sydd o dan bwysau oherwydd prinder tai er mwyn medru cynyddu'r stoc o dai fforddiadwy drwy ddulliau eraill; a
- ii) rhoi rhagor o bwerau gorfodaeth a phwerau ymyrraeth i Weinidogion Cymru parthed y ddarpariaeth o dai gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Byddaf yn gwneud datganiad deddfwriaethol yn y cyfarfod llawn yfory i gyflwyno'r Mesur arfaethedig.